# Astudiaeth: Llesiant mewn Amgueddfeydd yng Nghymru

## CASGLU DATA MEINTIOL GAN DDEFNYDDIO AMBARÉL LLESIANT CADARNHAOL CYFFREDINOL UCL

YMCHWIL GAN LYNN PODMORE, YMGYNGHORYDD AMGUEDDFEYDD A THREFTADAETH

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Ynglŷn ag Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol UCL | 3 |
| Methodoleg Ymchwil | 4 |
| Amgueddfeydd a Gymerodd Ran | 6 |
| Canfyddiadau Llesiant | 7 |
| Casgliad | 12 |
| Cydnabyddiaethau/Darllen pellach | 14 |

# Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr Astudiaeth Llesiant hon i gasglu data meintiol ynghylch llesiant ymwelwyr i Amgueddfeydd lleol Cymru. Mae perthnasedd gwneud hynny yn canolbwyntio ar ymchwilio a dangos tystiolaeth o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn benodol, elfennau o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ceisio gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. At hynny, mae rhai o 10 Mesur Llesiant Llywodraeth Cymru fel sydd wedi'u hamlinellu yn y Rhaglen Lywodraethu hefyd yn berthnasol, er enghraifft:

- Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell fyth i fyw a gweithio ynddynt.
- Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu.

Roedd y gwaith maes yn cynnwys defnyddio Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant Creadigol Coleg Prifysgol Llundain (UCL)[1] yn gysylltiedig â'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol.[2] Lluniwyd y Pecyn Cymorth i alluogi cynulleidfaoedd i hunan-adrodd ar newidiadau mewn hwyliau ac emosiwn cyn ac ar ôl ymgysylltu ag amgueddfa neu oriel. Mae'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol felly'n galluogi i lesiant seicolegol cynulleidfaoedd gael ei werthuso.

Comisiynwyd ymgynghorydd annibynnol[3] gan Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2024 i gynnal ymchwil ym maes llesiant mewn amgueddfeydd lleol. Y gofynion allweddol oedd y dylid darparu sampl gynrychioliadol o fathau o amgueddfeydd, lleoliadau, llywodraethu a chasgliadau ar gyfer yr astudiaeth. Yn ogystal, roedd y cwmpas yn cynnwys cynnig hyfforddiant a chymorth i alluogi staff a gwirfoddolwyr amgueddfeydd i ddefnyddio'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol i gasglu data.

Cafodd y data ei ddadansoddi a'i ddehongli ac yn dilyn hyn lledaenwyd y canfyddiadau allweddol yn y sector amgueddfeydd trwy gyhoeddiad digidol dwyieithog.


[1] Cynhyrchwyd y pecyn cymorth gan ymchwilwyr o garfan Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Coleg Prifysgol Llundain (UCL)

[2] Ibid. Defnyddiwyd yr Ambarél Llesiant Cadarnhaol a ddangosir ar dudalen 15 o'r pecyn cymorth

[3] Lynn Podmore, Ymgynghorydd Amgueddfeydd a Threftadaeth – Ymgynghoriaeth L Podmore Consultancy

## Ynglŷn â'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol

Ar yr Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol, mae chwe therm yn gysylltiedig â llesiant wedi'u hargraffu o amgylch yr ymylon. Dyma nhw: yn heini, yn effro, yn frwdfrydig, yn llawn cyffro, yn hapus, ac wedi fy ysbrydoli. Rhoddwyd ambarél i ymwelwyr i'r amgueddfeydd a gofynnwyd iddynt raddio sut roeddent yn teimlo o dan bob categori wrth iddynt fynd i mewn i'r oriel ac yna graddio eto ar y cefn sut roeddent yn teimlo wrth adael. Gofynnwyd i ymwelwyr roi cylch o amgylch rhif o 1-5 gan ddefnyddio'r canllawiau sgorio isod.




Yr Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol. Dyluniwyd gan UCL

**Canllawiau Sgorio**

1. Ddim o gwbl
2. I raddau bach
3. I raddau gweddol helaeth
4. I raddau digon helaeth
5. I raddau helaeth

**Enghraifft:**

Pe bai person yn teimlo'n frwdfrydig i raddol gweddol helaeth, byddent yn rhoi cylch o amgylch 3 o dan y segment hwnnw. Yna caiff y data 'cyn' ac 'ar ôl' ei gymharu er mwyn nodi newidiadau llesiant (gan gymharu'r cyfartaledd neu'r ystod). Yna gellir dadansoddi hyn i ddatgelu data eraill e.e. newid canrannol.

Yn ystod y gwaith o ddatblygu pecyn cymorth UCL, canfuwyd bod llawer o resymau cadarnhaol dros ddefnyddio'r fethodoleg hon, megis:

| | |
|---|---|
| *Mesur cadarn* | Mae'n helpu i werthuso llesiant seicolegol cynulleidfaoedd cyn ac ar ôl ymweld ag amgueddfa neu oriel gelf |
| *Hyblyg* | Gellir ei ddefnyddio i werthuso effaith gweithgaredd amgueddfa unigryw, rhaglen o ddigwyddiadau, profiad cyffredinol ymwelydd neu weithgaredd allgymorth |
| *Dylunio greddfol* | Mae set o raddfeydd o 1-5 yn hawdd eu defnyddio |
| *Yn gyflym i'w gwblhau* | Ychydig iawn o ymdrech sydd ei hangen i'r ymwelydd ei gwblhau o'i gymharu â dulliau arolygu eraill |



Graddio'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol. Llun drwy garedigrwydd y Ganolfan Eifftaidd, Abertawe

## Methodoleg Ymchwil

### Amserlen

Cynhaliwyd y gwaith casglu data rhwng 7 Chwefror a 19 Mawrth 2024 gan amgueddfeydd a gymerodd ran. Cwblhawyd dadansoddiad o'r canfyddiadau erbyn 31 Mawrth.

### Lansio'r Arolwg

Ar 31 Ionawr 2024, anfonwyd e-bost dwyieithog trwy Jiscmail at Amgueddfeydd yng Nghymru gyda gwahoddiad i amgueddfeydd lleol gofrestru i fynegi diddordeb mewn casglu data llesiant gan ymwelwyr. Cafodd yr ohebiaeth ei rhannu hefyd gan Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru ac Is-adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru. Defnyddiodd yr ymgynghorydd eu rhwydwaith i hyrwyddo'r cyfle.

### Cefnogaeth i'r ymchwil

Darparwyd dau gyflwyniad rhithwir deugain munud o hyd, ar 7 Chwefror a 19 Chwefror 2024, trwy Zoom. Yn y sesiynau hyn cyfathrebwyd y nodau a'r amcanion. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyflwyniad PwerBwynt yn esbonio'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol a nodir ym Mhecyn Cymorth Mesurau Llesiant Creadigol UCL. Rhannwyd hefyd sut y byddai'r data'n cael ei gasglu yn ymarferol ynghyd ag arweiniad ynghylch gwneud hynny a chafwyd sesiwn holi ac ateb i gloi'r sesiwn. Darparwyd trydydd cyflwyniad i sefydliad nad oedd yn gallu mynychu'r naill ddyddiad na'r llall. Yn unol â Safonau'r Gymraeg, cynigiwyd darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg petai unrhyw un yn dymuno cyfrannu yn y Gymraeg, ond ni dderbyniodd y cyfranogwyr y cynnig.

Darparwyd fersiwn PDF o'r cyflwyniad PwerBwynt dwyieithog, ynghyd â thempled o daenlen Excel i'w defnyddio at ddibenion cofnodi. Nododd adborth yn dilyn y sesiwn y byddai'n well gan yr amgueddfeydd a fyddai'n cymryd rhan gael datganiad dwyieithog i'w arddangos yn esbonio sut i gwblhau'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol, ynghyd ag esboniad yn nodi pam roedd y data'n cael ei gasglu. Rhoddwyd hyn ar waith. Darparwyd cymorth ychwanegol i gyfranogwyr drwy e-bost a thros y ffôn. Ar gyfer amgueddfeydd annibynnol a fyddai'n cymryd rhan, cynigiwyd bwrsariaeth fach i dalu costau gwirfoddolwyr ac am ddeunydd ysgrifennu ac inc. Roedd hyn er mwyn sicrhau nad oedd cyfrannu at yr ymchwil yn atal cyfranogiad o safbwynt gwariant ariannol. Ar gyfer un amgueddfa, darparwyd ymweliad wyneb yn wyneb gan yr ymgynghorydd i sicrhau cynrychiolaeth o'r ardal ddaearyddol a'r math o sefydliad. Cysylltwyd â nifer fach o amgueddfeydd yn uniongyrchol ar sail y mentrau llesiant yr oedd yn hysbys eu bod wedi'u cynnal, a chafwyd graddau ymateb amrywiol.

**Y Gymraeg**

Darparwyd yr holl gyfathrebiadau cyhoeddus a'r dogfennau ategol yn ddwyieithog. Cynigiwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i gyfranogwyr, yn unol â Safonau'r Gymraeg y mae gofyn i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â nhw, ond ni dderbyniwyd y cynnig hwn. Cwmni cyfieithu ag enw da ac aelodaeth gyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru a gyflawnodd y gwaith cyfieithu (cyflenwr i Lywodraeth Cymru). Defnyddiwyd y derminoleg Gymraeg a ddefnyddiwyd gan Goleg Prifysgol Llundain wrth ddisgrifio termau'r Ambarél Llesiant Cadarnhaol.

**Y Gyfradd Ymateb**

Daeth un ar bymtheg o amgueddfeydd (ac ugain cynrychiolydd) i'r gweithdai briffio, gan fynegi diddordeb mewn cyfrannu at ddata llesiant. Am fod 99 o amgueddfeydd achrededig yng Nghymru, mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 16%. Cymerodd saith amgueddfa ran yn yr astudiaeth hon, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 7%.

**Cofnodion Data**

Gwnaeth cynrychiolydd o bob amgueddfa boblogi tabl a ddyluniwyd ymlaen llaw mewn taenlen Excel. Roedd hyn yn cofnodi'r graddau a sgoriwyd gan ymwelwyr ar ddechrau a diwedd eu hymweliad, a phoblogwyd y cyfartaledd ar gyfer pob ambarél yn awtomatig. Mae'r data wedi'i nodi i un lle degol.

**Cwmpas yr Ymchwil**

Roedd yr ymchwil feintiol yn canolbwyntio ar yr Ambarelau Llesiant Cadarnhaol ar gyfer ymwelwyr cyffredin. Nid oedd yn cynnwys unrhyw fath o ambarél llesiant arall nac yn canolbwyntio ar ymweliadau grŵp na gwaith allgymorth. Nid oedd unrhyw ddata ansoddol yn rhedeg ochr yn ochr â'r arolwg hwn.

Gallai rhai newidynnau nad oedd modd eu rheoli wrth gasglu ymatebion fod wedi cael rhywfaint o ddylanwad ar y sgorio, e.e. gallai unigolion fod wedi bod yn amharod i ddweud eu bod yn ystyried nad oeddent yn heini; nid yw'n hysbys pa lefel yr ymgysylltiad a gafodd amgueddfeydd o ran wrth annog ymwelwyr i gwblhau'r arolwg.

## Amgueddfeydd a Gymerodd Ran

Gwirfoddolodd saith amgueddfa i gymryd rhan yn yr astudiaeth Llesiant, gan rychwantu ystod o siroedd a mathau o sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys dwy amgueddfa annibynnol; tair amgueddfa Awdurdod Lleol; un Amgueddfa Prifysgol ac un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd yr amgueddfeydd wedi'u lleoli yng nghanol dinasoedd, mewn trefi, ar yr arfordir, mewn ardaloedd gwledig ac ar ynys. At ei gilydd, cafwyd cyfanswm o 379 o ymatebion, yn cynrychioli sawl gwahanol sir yng Nghymru.

| Amgueddfa yng Nghymru | Math | Sir | Rhanbarth | Ymatebion |
|---|---|---|---|---|
| Amgueddfa ac Oriel Llandudno | Annibynnol | Conwy | Gogledd | 100 |
| Tŷ Tredegar | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Sir Fynwy | De | 82 |
| Y Ganolfan Eifftaidd | Prifysgol | Abertawe | De | 54 |
| Amgueddfa Caerdydd | Awdurdod Lleol | Caerdydd | De | 54 |
| Amgueddfa Crochendy Nantgarw | Annibynnol | Rhondda Cynon Taf | De | 33 |
| Amgueddfa Sir Gaerfyrddin | Awdurdod Lleol | Sir Gaerfyrddin | De | 30 |
| Oriel Môn | Awdurdod Lleol | Ynys Môn | Gogledd | 26 |

Roedd y naratifau, yr ystod o gasgliadau a'r mannau awyr agored ym mhob amgueddfa yn helaeth. Ymhlith yr arbenigeddau roedd hynafiaethau, celf, ffosilau, archeoleg a serameg. Cafodd y rhain eu cyflwyno mewn adeiladau amgueddfeydd traddodiadol neu eiddo hanesyddol, e.e. safle treftadaeth ddiwydiannol, hen balas a phlasty hanesyddol gyda gerddi.

| Amgueddfa yng Nghymru | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Amgueddfa ac Oriel Llandudno | Mae'r arddangosion yn rhychwantu'r oesoedd ers y cyfnod cynhanes ac yn eu plith mae hanes naturiol, daeareg, celf gain a hanes cymdeithasol a milwrol. |
| Tŷ Tredegar | Un o'r enghreifftiau gorau o blasty o gyfnod yr Adferiad ym Mhrydain a chartref teuluol Morgan. |
| Y Ganolfan Eifftaidd | Mae gan Amgueddfa'r Brifysgol y casgliad mwyaf o hynafiaethau Eifftaidd yng Nghymru (tua 6,000 o arteffactau). |
| Amgueddfa Caerdydd | Mae casgliad yr amgueddfa yn adrodd hanes Caerdydd a'r bobl sydd wedi byw, gweithio a chwarae yn y ddinas, dros y canrifoedd. |
| Amgueddfa Crochendy Nantgarw | Yr unig grochendy porslen o ddechrau'r 19eg ganrif sydd wedi goroesi yn y Deyrnas Unedig. Mae iddi dair odyn botel. |
| Amgueddfa Sir Gaerfyrddin | Mae'r hen Balas 700 oed ar gyfer Esgobion Tyddewi yn adrodd straeon am bobl, pŵer a phrotest. |
| Oriel Môn | Yma mae cartref y casgliad mwyaf o weithiau gan yr artist o Gymru Syr Kyffin Williams, ynghyd â gwaith celf bywyd gwyllt gan Charles Tunnicliffe. |


## Canfyddiadau Llesiant

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi trosolwg o ddata meintiol o bob amgueddfa a gymerodd ran, ac yna’r canlyniadau llesiant cyfunol. Mae'r canlyniad cyfartalog ar gyfer pob un o'r chwe dangosydd llesiant yn cael ei ddarparu ar gyfer pob pennawd ar yr ambarél yn ogystal â'r gwahaniaeth canrannol. Mae dangosyddion gyda'r sgoriau isaf ac uchaf hefyd yn cael eu cyflwyno. Mae tabl a diagram ynghlwm i roi darlun gweledol.

### Amgueddfa ac Oriel Llandudno

Cwblhaodd 100 o ymwelwyr yr arolwg. Mae'r newidiadau canrannol yn yr amgueddfa yn datgelu cynnydd sylweddol ym mhob maes llesiant. Y dangosyddion a welodd y newidiadau mwyaf oedd 'Yn heini’, gyda gwelliant o 49% ac 'Wedi fy ysbrydoli' ar 46%. 'Yn llawn cyffro' ddaeth isaf gyda gwelliant o 37% er mai dyma a sgoriodd uchaf ar ôl yr ymweliad, ar 4.8. Y rheswm am hyn yw bod ymwelwyr wedi sgorio'r emosiwn hwn yn uwch na'r lleill i ddechrau, ar 3.5, ac yn sgil hyn roedd llai o le i gynyddu. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 42%.


| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.2 | 4.7 | 49% |
| **Yn effro** | 3.3 | 4.6 | 40% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.3 | 4.7 | 39% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.5 | 4.8 | 37% |
| **Yn hapus** | 3.3 | 4.7 | 43% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.2 | 4.7 | 46% |
| **Cyfartaledd** | **3.3** | **4.7** | **42%** |



## Tŷ Tredegar

Cwblhaodd 82 o ymwelwyr arolwg yr amgueddfa. Mae'r newidiadau canrannol yn dangos cynnydd da iawn ym mhob maes llesiant, gyda phum sgôr yn amrywio rhwng 18-21% (ystod o 3%). Y chweched dangosydd, a welodd y newid mwyaf, oedd 'Wedi fy ysbrydoli', gyda gwelliant o 29%. Y newid canrannol isaf oedd 'Yn heini', ar 19%, ond roedd hyn yn dal yn gynnydd da. Ar ddechrau eu hymweliad â'r amgueddfa, roedd pobl yn graddio 'Yn frwdfrydig' ac 'Yn hapus' yn uwch na chategorïau eraill felly roedd llai o le i gynyddu. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 21%.


| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.4 | 4.0 | 18% |
| **Yn effro** | 3.5 | 4.1 | 19% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.9 | 4.7 | 21% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.6 | 4.3 | 21% |
| **Yn hapus** | 3.9 | 4.7 | 20% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.5 | 4.5 | 29% |
| **Cyfartaledd** | **3.6** | **4.4** | **21%** |




## Y Ganolfan Eifftaidd

Cwblhaodd 54 o ymwelwyr yr arolwg. Mae'r newidiadau canrannol yn yr amgueddfa yn datgelu bod cynnydd cyfartal ym mhob maes llesiant. Y dangosydd a welodd y gwelliant mwyaf oedd 'Wedi fy ysbrydoli', ar 39%. Y newid canrannol isaf oedd 'Yn effro' ar 27% ond roedd hyn yn dal yn gynnydd da iawn. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 32%.


| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.6 | 4.6 | 30% |
| **Yn effro** | 3.6 | 4.5 | 27% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.6 | 4.8 | 32% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.6 | 4.7 | 31% |
| **Yn hapus** | 3.6 | 4.8 | 31% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.4 | 4.7 | 39% |
| **Cyfartaledd** | **3.6** | **4.7** | **32%** |



## Amgueddfa Caerdydd

Cwblhaodd 54 o ymwelwyr yr arolwg. Mae'r newidiadau canrannol yn yr amgueddfa yn datgelu cynnydd da ym mhob maes llesiant. Y dangosydd a welodd y gwelliant mwyaf oedd 'Wedi fy ysbrydoli' gyda chynnydd o 30%. Y newid canrannol isaf oedd 'Yn hapus', ar 9%, yn bennaf oherwydd bod hyn wedi'i raddio uchaf ar 3.9 gan ymwelwyr ar y dechrau, felly roedd llai o le i gynyddu'r sgôr hon. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 20%.


| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.2 | 3.8 | 19% |
| **Yn effro** | 3.1 | 3.8 | 24% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.6 | 4.3 | 20% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.5 | 4.1 | 18% |
| **Yn hapus** | 3.9 | 4.2 | 9% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.2 | 4.2 | 30% |
| **Cyfartaledd** | **3.4** | **4.1** | **20%** |




## Amgueddfa Crochendy Nantgarw

Cwblhaodd 33 o ymwelwyr yr arolwg. Mae'r newidiadau canrannol yn yr amgueddfa yn datgelu cynnydd da ym mhob maes llesiant. Y dangosydd a welodd y gwelliant mwyaf oedd 'Wedi fy ysbrydoli', ar 37%. Dau gategori a gynyddodd i raddau llai oedd 'Yn effro' ac 'Yn hapus', y ddau yn gwella 19%. Roedd hyn yn dal yn welliant cadarnhaol o ystyried bod y ddau wedi cael eu graddio'n uchel (dros 4) yn wreiddiol gan ymwelwyr ar ddechrau eu hymweliad â'r amgueddfa. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 25%.


| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.5 | 4.4 | 26% |
| **Yn effro** | 4.0 | 4.7 | 19% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.8 | 4.7 | 23% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.8 | 4.8 | 28% |
| **Yn hapus** | 4.1 | 4.8 | 19% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.5 | 4.8 | 37% |
| **Cyfartaledd** | **3.8** | **4.7** | **25%** |



## Amgueddfa Sir Gaerfyrddin

Cwblhaodd 30 o ymwelwyr yr arolwg. Mae'r newidiadau canrannol yn yr amgueddfa yn datgelu cynnydd da ym mhob maes llesiant. Y dangosydd a welodd y gwelliant mwyaf oedd 'Wedi fy ysbrydoli' gyda chynnydd o 21%. Y newid canrannol isaf oedd 'Yn frwdfrydig' ar 12%, oherwydd mai hyn a sgoriodd uchaf ar y dechrau gyda 3.9. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 17%.


| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.6 | 4.2 | 17% |
| **Yn effro** | 3.6 | 4.2 | 18% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.9 | 4.4 | 12% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.5 | 4.1 | 19% |
| **Yn hapus** | 3.9 | 4.6 | 18% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.6 | 4.3 | 21% |
| **Cyfartaledd** | **3.7** | **4.3** | **17%** |




## Oriel Môn

Cwblhaodd 26 o ymwelwyr yr arolwg. Mae'r newidiadau canrannol yn yr amgueddfa yn dangos cynnydd sylweddol ym mhob maes llesiant. Y dangosyddion a welodd y gwelliannau mwyaf oedd 'Yn llawn cyffro' ac 'Wedi fy ysbrydoli', gyda chynnydd o 34%. Y categori a gynyddodd leiaf oedd 'Yn hapus', gan wella 20%, yn bennaf oherwydd bod ymwelwyr wedi graddio hyn yn uwch (3.7) ar ddechrau eu hymweliad â'r amgueddfa. Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 27%.

| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.1 | 3.8 | 25% |
| **Yn effro** | 3.5 | 4.2 | 22% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.5 | 4.4 | 27% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.0 | 4.1 | 34% |
| **Yn hapus** | 3.7 | 4.4 | 20% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.2 | 4.3 | 34% |
| **Cyfartaledd** | **3.3** | **4.2** | **27%** |



**Data Cyfunol**


Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau cyfunol 379 o gofnodion o bob un o'r saith amgueddfa a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon. Gwellodd pob categori llesiant cadarnhaol rhwng 24% a 32% (ystod o 8%). Mae'r data isaf ac uchaf yn adlewyrchu sgoriau unigol yr amgueddfeydd.

'Wedi fy ysbrydoli' a welodd y gwelliant mwyaf mewn 6 o'r 7 amgueddfa a dyma oedd yr ail uchaf yn y seithfed. Y gwelliant cyfartalog ar gyfer y categori hwn oedd 32%.

Y sgôr a gynyddodd leiaf oedd 'Yn hapus' ar 24% ond fel y soniwyd yn flaenorol, dyma a gafodd y sgôr uchaf i ddechrau, ar 3.7. Mae'r ganran hon fel y mae yn uchel.

Fel cyfartaledd cyfunol, gwellodd llesiant ymwelwyr 28%.

| Emosiwn | Cyn | Ar ôl | % Newid |
|---|---|---|---|
| **Yn heini** | 3.3 | 4.3 | 30% |
| **Yn effro** | 3.4 | 4.3 | 26% |
| **Yn frwdfrydig** | 3.6 | 4.6 | 28% |
| **Yn llawn cyffro** | 3.5 | 4.5 | 29% |
| **Yn hapus** | 3.7 | 4.6 | 24% |
| **Wedi fy ysbrydoli** | 3.4 | 4.5 | 32% |
| **Cyfartaledd** | **3.5** | **4.5** | **28%** |




**Hierarchaeth y Canlyniadau**

1. Wedi fy ysbrydoli
2. Yn heini
3. Yn llawn cyffro
4. Yn frwdfrydig
5. Yn effro
6. Yn hapus

## Casgliad

Mae'r astudiaeth hon yn darparu arwydd cychwynnol bod amgueddfeydd yn gwella llesiant ymwelwyr i raddau helaeth ar draws yr holl gategorïau llesiant cadarnhaol, ni waeth beth yw'r math o amgueddfa, y lleoliad daearyddol na'r math o gasgliad. Ochr yn ochr â dangos manteision economaidd a dysgu, gallai amgueddfeydd hefyd ystyried defnyddio mesurau llesiant fel modd o werthuso a mesur effaith. Gallai hyn ddylanwadu ar ymchwil bellach, dysgu newydd a mynediad at gyllid.

Rhoddodd cyfran o swyddogion amgueddfeydd, gan gynnwys rhai nad oeddent yn cymryd rhan yn yr ymchwil hon, adborth llafar cadarnhaol gan fod ganddynt ddealltwriaeth well o Ambarél Llesiant Cadarnhaol Cyffredinol UCL. Er nad oedd yn rhan o gwmpas yr ymchwil hon, teimlai rhai Swyddogion Gwasanaethau Dysgu ac Ymwelwyr eu bod wedi'u hannog i geisio defnyddio mesurau UCL gyda grwpiau ysgol a chymunedol; roedd llawer yn teimlo'n hyderus y byddai'r gwerthusiad llesiant yn fesur da i ddangos effaith ymysg uwch reolwyr a byddent yn ceisio ei gynnwys yn rhan o'u gwerthusiadau yn y dyfodol. Roedd diddordeb mewn cyfrannu at ymchwil bellach pe bai hyn yn opsiwn yn y dyfodol.

Roedd adborth gan weithwyr proffesiynol amgueddfeydd yn canmol dyluniad ambarél UCL a pha mor hawdd oedd i ymwelwyr ei ddefnyddio ac i swyddogion amgueddfeydd hyrwyddo'r ymchwil. Nid oedd ymateb mor ffafriol i'r angen i dorri o amgylch y siâp hecsagon.

Mae tirwedd amgueddfeydd Cymru yn amrywiol, gydag ystod o amgueddfeydd a swmp mwy o amgueddfeydd annibynnol gydag adnoddau cyfyngedig. Er bod diddordeb ymysg amgueddfeydd yng Nghymru i ddysgu am holl Ambarelau Llesiant UCL a sut y gellid eu defnyddio, roedd rhai amgueddfeydd yn teimlo nad oeddent yn gallu cyfrannu oherwydd:

- Amseroedd agor tymhorol yn dechrau o fis Mawrth.
- Roedd un amgueddfa ar gau oherwydd gwaith ailddatblygu.
- Roedd prinder staff neu wirfoddolwyr ymysg rhai i gefnogi rhyngweithio cyhoeddus.
- Nododd un nad oedd gan rai gwirfoddolwyr hyder i gyfathrebu â'r cyhoedd.
- Roedd blaenoriaethau gwaith presennol yn rhagflaenu, e.e. adroddiadau grant neu gyfrifon diwedd blwyddyn.
- Roedd cefnogaeth wyneb yn wyneb yn gyfyngedig oherwydd y lleoliadau daearyddol.

Ni chynhaliwyd unrhyw ddata ansoddol ochr yn ochr â'r arolwg hwn i ganfod pam, er enghraifft, roedd pobl yn teimlo'u bod wedi'u hysbrydoli neu'n frwdfrydig. Gallai hyn gael ei ddylanwadu, o bosibl, gan ryngweithio cymdeithasol gyda staff amgueddfeydd neu aelodau teulu, mynediad i fannau agored neu arddangosyn arbennig. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn galonogol iawn.

## Cydnabyddiaethau

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth Llesiant gan ymchwilwyr o garfan Amgueddfeydd ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Coleg Prifysgol Llundain (UCL) gyda chyllid gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).

Dymuna'r awdur ddiolch i Nerys Hurford am wasanaethau prawf-ddarllen a chyfieithu ac i bawb a gyfrannodd at gynnwys yr adroddiad hwn.

Cyllidwyd yr adroddiad ymchwil hwn gan Lywodraeth Cymru.

## Darllen pellach

- Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant UCL
  https://www.ucl.ac.uk/biosciences/sites/biosciences/files/ucl_creative_wellbeing_measures_toolkit_sept22.pdf

- Pecyn Cymorth Mesurau Llesiant UCL Cymru
  mesurau-llesiant-amgueddfeydd-yr-ucl.pdf (wordpress.com)

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/

- Mesurau Llesiant y Rhaglen Lywodraethu
  Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant [HTML] | GOV. CYMRU

Lluniwyd yr Adroddiad Astudiaethau Achos Llesiant hwn gan Lynn Podmore, Ymgynghorydd Amgueddfeydd a Threftadaeth

Mawrth 2024